Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Lynn Fardon
Domestic Fisheries Reform
Area3D
Nobel House
17 Smith Square

Drwy e-bost

Annwyl/Dear Lynn,

**Ymgynghoriad ar yr Asesiad Amgylcheddol Strategol o Raglen Weithredol Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop – Adroddiad Amgylcheddol**

Diolch am ymgynghori â'r Corff Adnoddau Naturiol ar gyfer Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru) ar y ddogfen uchod. Pwrpas Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal yn gynaliadwy, eu gwella'n gynaliadwy a'u defnyddio'n gynaliadwy nawr ac yn y dyfodol. Felly rydym yn cyflwyno ein sylwadau yng nghyd-destun y cylch gwaith hwn a'n rôl fel corff ymgynghori o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, fel y'u diwygiwyd ymhellach gan baragraff 189 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013, ac fel cynghorwyr i Lywodraeth Cymru ar dreftadaeth ac adnoddau naturiol Cymru a'i dyfroedd arfordirol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu ac yn cefnogi'r asesiad strategol o Raglen Weithredol Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. Rydym yn ystyried bod angen asesiad strategol cadarn o'r materion amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen i leihau risgiau ac effeithiau ansicr i'r amgylchedd o brosiectau a ariennir yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gallu darparu ymateb cynhwysfawr gan mai dim ond 4 wythnos yn unig oedd y cyfnod ymgynghori.

Rydym wedi cynnwys sylwadau cyfyngedig ar gwmpas a manylion yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn yr Atodiad canlynol.

Os oes gennych chi gwestiynau am yr ymateb hwn cysylltwch â Colin Charman, ein Cynghorydd Pysgodfeydd Môr (Colin.Charman@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu 03000 654965)

Nodwch y dylid anfon unrhyw ymgynghoriadau Asesiad Amgylcheddol Strategol yn y dyfodol i borth asesu strategol CNC yn: strategic.assessment@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Yn Gywir / Yours sincerely,

Rhian Jardine
Head of Sustainable Pennaeth / Communities Cymunedau Cynaliadwy

Tŷ Cambria • 29 Heol Casnewydd • Caerdydd • CF24 0TP
Cambria House • 29 Newport Road • Cardiff • CF24 0TP
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

## Atodiad 1

### Bioamrywiaeth, Ffawna a Fflora

1. Nid yw'r Adran Bioamrywiaeth, Ffawna a Fflora yn cynnwys rhywogaethau neu gynefinoedd gwarchodedig sydd y tu allan i'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig, ac eithrio rhywogaethau Atodiad II y Gyfarwyddeb Gynefinoedd.

2. Nid yw'r Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi ystyried cynefinoedd a rhywogaethau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a chynefinoedd a rhywogaethau OPSAR sydd dan fygythiad ac yn dirywio.

3. Nid yw Adran 4.1 yn crybwyll rhywogaethau estron er bod rhannau eraill o'r ddogfen yn gwneud hynny.

4. Nid yw hi'n glir pam mae Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol (MFSD) wedi'i chynnwys o dan yr Adran Dŵr ond nid yn yr Adran Bioamrywiaeth, Ffawna a Fflora. Pe bai'n cael ei chynnwys byddai angen ychwanegu'r disgrifyddion ar gyfer bioamrywiaeth, rhywogaethau estron a gweoedd bwyd i'r adran Bioamrywiaeth, Ffawna a Fflora.

5. Gallai Amcan 4 Erthygl 43, datblygu seilwaith, gael effaith uniongyrchol ar yr amgylchedd os yw'n cael ei wneud mewn modd ansensitif i'r amgylchedd a gallai gael effaith anuniongyrchol pe bai'n arwain at fwy o bysgota yn yr ardal. Yn yr un modd, mae yna risgiau wrth ehangu dyframaeth a chyflwyno rhywogaethau estron nad ydynt wedi'u hadlewyrchu'n ddigonol yn y tablau.

6. Adran 9, Monitro. Yn y rhan fwyaf o achosion credwn y bydd monitro ar lefel prosiect yn fwy defnyddiol na monitro ar lefel cynllun a dylai fod yn ofyniad ar gyfer cyllid lefel prosiect os gallai effeithio ar nodweddion gwarchodedig.

### Morweddau

7. Tud. 10 Tabl F – meithrin marchnata a phrosesu. Mae yna bosibilrwydd o effaith gadarnhaol ar 9 (treftadaeth ddiwylliannol) a 10 (tirwedd) drwy hyrwyddo cynhyrchion sy'n seiliedig ar le.

8. Tud. 15 Tabl 1 eitem 10 'to maintain and where feasible enhance seascape and landscape character and visual amenity' – ychwanegu dangosyddion:

    - Nifer y gweithgareddau cyfredol neu newydd sy'n cael eu cynnal (h.y. tirwedd neu forwedd) i hyrwyddo neu farchnata'r cynnyrch i gwsmeriaid
    - Nifer y cyfleusterau dyframaeth a gefnogir gan unedau caeedig dŵr agored

9. Adran 4.7.1 – byddai rhai dynodiadau anstatudol yn berthnasol yma hefyd, sef "Arfordir Treftadaeth" (Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon) a "Wild Land" (yr Alban).

10. Tud. 60 Ffig 7.5 ac amcanion 9 a 10 – Mae yna bosibilrwydd o effaith gadarnhaol ar 9 (treftadaeth ddiwylliannol) a 10 (tirwedd) drwy hyrwyddo cynhyrchion sy'n seiliedig ar le.

11. Tud. 68 rhes ola'r tabl (morwedd/tirwedd) – Mae yna botensial am effeithiau morwedd a gweledol cronnus sylweddol lle mae'r gronfa'n sbarduno ffermydd pysgod newydd neu waith i ehangu rhai â chewyll dŵr agored.

12. Tud. 71 Tabl 9.1 eitem 10 – mesur anghywir. Ni fyddai'r mater yn cael ei gynrychioli gan y dangosydd a gynigir.  Nid oes morweddau dynonedig ychwaith.  Mesur mwy sensitif fyddai "Number of fisheries or aquaculture activities with open water cages in or adjacent to designated landscapes".

13. Matrics UP1.4_Art42 – Tirwedd/morwedd – diwygio – effaith gadarnhaol bosibl lle defnyddir marchnata'n seiliedig ar le i hyrwyddo cynhyrchion i gwsmeriaid.

14. Matrics UP1.4_Art47 – Tirwedd/morwedd – diwygio – anghywir i dybio dim effaith ar sail y dybiaeth y bydd eraill yn lliniaru (rheoli cynllunio). Effeithiau negyddol sylweddol posibl – wrth ddatblygu dyframaeth gyda chewyll dŵr agored. Nid yw rheoli cynllunio yn atal y math hwn o ddatblygiad ac mewn rhannau o'r DU mae datblygiadau dyframaeth wedi'u caniatáu ac eisoes wedi cael effaith sylweddol ar dirwedd/morwedd.

15. Matrics UP1.4_Art66 – Tirwedd/morwedd – diwygio – potensial ar gyfer effaith gadarnhaol pan fo marchnata'n defnyddio lle (h.y. tirwedd/morwedd) fel nodwedd wrth werthu (Eog Tay, Ciperiaid Craster ac ati)

16. UP1.4_Art68 matrix – Tirwedd/morwedd – diwygio – potensial ar gyfer effaith gadarnhaol pan fo marchnata'n defnyddio lle (h.y. tirwedd/morwedd) fel nodwedd wrth werthu (Eog Tay, Ciperiaid Craster ac ati)

**Dŵr**

17. Adran 4.3.1 – wrth ddyfynnu statws a nifer y cyrff dŵr mae angen darparu ffynhonnell a blwyddyn dosbarthu.

18. Y frawddeg olaf o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 4.3.1.1 'Objectives have been set through the relevant River Basin Management Plan for all water bodies that are not currently at Moderate status or worse in order to bring them up to Good status, within a prescribed timeframe.' Mae'n darllen yn wael ac nid yw'n hollol wir. Os yw'r corff dŵr yn dda neu'n well yna'r amcan yw peidio dirywio. Os yw'r corff dŵr yn gymedrol neu'n waeth yna'r amcan yw dim dirywio a statws da.

19. Yn y bocs: 'A trend analysis of nitrogen and phosphorus inputs from UK rivers and atmospheric deposition showed that over time, inputs of nutrients to the marine

environment are generally decreasing'. Mae angen cyfeiriad at y wybodaeth hon, nid yw'n adlewyrchu'r sefyllfa ddisgwyliedig yng Nghymru.